CYNLLUN AC ASESIAD GWASTRAFF RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

CYFARFOD Y GRŴP TECHNEGOL RHANBARTHOL

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar ddydd Iau 24ain Chwefror 2005, am 11.00am
Ystafelloedd Pwyllgor A a B, Canolfan Ddinesig Castell-nedd

Yn Bresennol

Geoff White (Cadeirydd)	CBS Castell-nedd Port Talbot
Ceri Morris	CBS Castell-nedd Port Talbot
Alan Harvey	CBS Castell-nedd Port Talbot
Carol Williams	Cyngor Sir Penfro / APCAP
Dave Harries	Cyngor Sir Penfro
Neil Bateman	Cyngor Sir Caerfyrddin
Hugh Towns	Cyngor Sir Caerfyrddin
Alison Thomas	Dinas a Sir Abertawe
Steve Bool	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr
Phil Williams	Cyngor Sir Caerfyrddin
Nick Oakes	Cyngor Sir Ceredigion
Audrey Evans	Asiantaeth yr Amgylchedd (DO Cymru)
Miranda Lewis	Asiantaeth yr Amgylchedd
Andy Street	SLR Consulting Ltd.

1. **Ymddiheuriadau**

Sue Martin	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Cathy O'Brien	Uned Strategaeth Wastraff LlCC
Frances Machin	Uned Strategaeth Wastraff LlCC
Philip Marks	CYLCH
Ruth Brown	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Karin Black	Asiantaeth yr Amgylchedd
Howell Beaton	CBS Castell-nedd Port Talbot
Graham Dorrington	Cyngor Sir Ceredigion
Huw Jenkins	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr
Clifford Parish	Dinas a Sir Abertawe

2. **Cofnodion cyfarfod y Grŵp Technegol a gynhaliwyd ar 28ain Ionawr 2005**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir ac nid oedd unrhyw faterion yn codi.

3. **Cynnydd ar Gynigion i gwrdd â Gofynion y Cynllun Lwfans Tirlenwi**

Rhoddodd Andy Street gyflwyniad ar *'Crynodeb o Gynigion i Gwrdd â'r Cynllun Lwfans Tirlenwi yn Ne-orllewin Cymru'*. Dosbarthwyd copi o'r cyflwyniad ac felly nid oes angen ei ailadrodd.

Codwyd y materion canlynol:

- canolbwynt y cynigion yw gwastraff trefol, mae hefyd angen astudio pa allu sydd ar gael i gynnwys ffrydiau gwastraff eraill;
- bydd y gofyniad i ymdrin â gwastraff trefol yn 'ysgogi'r' angen am isadeiledd;
- ydy ffocws ein gwaith yn rhy gul? - a ddylem ni fel rhanbarth fod yn gwneud mwy gyda'n gilydd i ddenu cwmnïoedd i'r ardal i ddarparu'r cyfleusterau angenrheidiol?;
- o ran cwrdd â gofynion y Cynllun Lwfans Tirlenwi, dylid amlygu bod cytundeb rhwng awdurdodau'r rhanbarth;

- mewn realiti fodd bynnag, mae nifer cyfyngedig o gyfleusterau is-ranbarthol. Felly, dylid pwysleisio pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth;

Cytunwyd, yn amodol ar ychydig o addasu, bod y *'Crynodeb o Gynigion'* yn cael ei gyflwyno i Fforwm yr Aelodau. **Gweithredu**: AS.

4. **Contract Grŵp Gwastraff Rhanbarthol**

- **Adroddiad Monitro Cyntaf**

Cyfeiriodd CM at *Ddrafft yr Amlinelliad o'r Adroddiad Monitro Cyntaf* a ddosbarthwyd.

Nodwyd bod swyddogion yn Rhanbarth y De-ddwyrain wedi drafftio'r fformat a byddai'n fanteisiol i'r tri rhanbarth gytuno ar ddull cyffredin. Mae'r ddogfen yn nodi'n bennaf y gofynion casglu data ac yn amlygu ffynonellau data o'r fath.

Cadarnhaodd ML y bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn darparu cymaint o wybodaeth â phosib ond fe danlinellodd na fydd elfennau penodol o ddata ar gael erbyn y dyddiad gofynnol. **Cytunwyd** ar y canlynol:

- fformat a chynnwys yr Adroddiad Monitro Cyntaf;
- mae angen mynd at LlCC i bennu dyddiad terfyn realistig ar gyfer yr adroddiad. **Gweithredu**: GW/CM;
- CM i fynychu cyfarfod gydag AyrA a swyddogion De-ddwyrain Cymru i drafod casglu data; a
- phob awdurdod lleol i ddarparu'r data gofynnol cyn gynted â phosib. **Gweithredu**: Pawb.

- **Drafft o Feini Prawf Lleoliadau Gwastraff Peryglus**

Dywedodd CM bod swyddogion o ranbarth y De-ddwyrain wedi cytuno i ddarparu drafft cychwynnol o feini prawf y lleoliadau, a phan fydd hwn wedi'i gwblhau bydd yn cael ei ddosbarthu er mwyn rhoi sylwadau arno. **Gweithredu**: CM.

Bydd meini prawf y lleoliadau sy'n bodoli yn CGRh y De-orllewin a'r De-ddwyrain a'r Ymarfer Mapio GIS yn cael eu defnyddio fel man cychwyn.

5. **Ymchwil Mapio GIS: Adroddiad Cynnydd LlCC**

Dywedodd GW bod y cyfweliadau wedi'u cynnal a bod Ymgynghorwyr wedi'u dethol. Bydd y contract ar ei ffurf derfynol yr wythnos nesaf a bydd yr ymchwil yn dechrau cyn gynted â phosib.

Gofynnwyd bod pob Awdurdod Lleol yn darparu gwybodaeth yn amlinellu'r hyn y gellir ei ddarparu'n electronig (h.y. mapiau Cynllun Lleol / CDU a gwybodaeth ddigidol). **Gweithredu**: Pawb.

6. **Cynigion ar gyfer presenoldeb yn y Grŵp Technegol**

Penderfynwyd yn y cyfarfod diwethaf y dylid gwneud ymdrech bellach i gynnwys amrywiaeth ehangach o sefydliadau yng ngwaith y Grŵp Technegol. **Cytunwyd** y byddwn yn mynd at y sefydliadau canlynol: Cyngor Cefn Gwlad Cymru, y Cyngor er Diogelu Cymru Wledig, Cymdeithas Genedlaethol Swyddogion Gwaredu Gwastraff (CGSGG), Ymddiriedolaeth yr Amgylchedd Cymru, WDA, WESA, CLlLC, WRAP, Siambr Fasnach a'r Fforwm Economaidd. **Gweithredu**: CM.

Eglurodd CM hefyd na fyddai cynrychiolydd o Ganolfan Ymchwil Gwastraff ac Adnoddau Cymru'n gallu darparu cymorth technegol fel y dywedwyd yn wreiddiol. Penderfynwyd cyn cytuno eu bod yn

cyfranogi, y dylid archwilio'r cyfraniad y maent yn ei wneud i Grŵp y De-ddwyrain. **Gweithredu**: CM.

7. **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Cytunwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddydd Iau 24ain Mawrth.

8. **Unrhyw Fater Arall**

Cyfeiriodd GW at e-bost oddi wrth Pat Mears (CBS Caerffili), ynghylch llythyr a anfonwyd gan y Cynghorydd Paul Ford at Carwyn Jones AC. Roedd y llythyr yn amlygu pryderon ynghylch costau gweithredu'r CGRhau yng Nghymru.

Mae'r Gweinidog wedi cytuno cael cyfarfod i drafod y pryderon a'r bwriad yw gwahodd y Cadeirydd ac un swyddog o bob un o'r tri rhanbarth. **Gweithredu**: GW i ddosbarthu'r e-bost / llythyr er gwybodaeth.

Dywedodd CM bod yr Awdurdod wedi derbyn dyfynbris oddi wrth 'Sticky Web Design Ltd.' i gynnal y *Wefan Gwastraff Rhanbarthol* am ddwy flynedd arall. **Cytunwyd** y dylid ymestyn y contract.